# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 10 Mehefin 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Yn dilyn trafodaeth eich adran ag Air Products, Acrefair, Wrecsam, pa gymorth ariannol a fyddai modd ei ddarparu gan neu drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi gwrthgynigion i gadw'r safle hwn ar agor? (WAQ54290)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae'n rhaid i'r cymorth a ddarparwyd i ymgymeriadau sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd gael ei gyflwyno yn unol â rheolau cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn archwilio pob opsiwn ariannu cyfreithiol sydd o fewn pwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cymorth i Air Products, gan ystyried cwmpas llawn y rheolau cymorth Gwladwriaethol a sicrhau y darperir unrhyw gymorth yn seiliedig ar achos busnes cadarn.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint o gyllid y mae Network Rail wedi'i ddyrannu ar gyfer Rheilffordd y Cambrian? (WAQ54299)

**Y Dirprwy Weinidog:** Mae Network Rail yn buddsoddi £5 miliwn o'i Chronfa Berfformio i wella seilwaith Rheilffordd y Cambria rhwng Aberystwyth a'r Amwythig, fel rhan o fuddsoddiad ar y cyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint o gyllid y mae Network Rail wedi'i wario ar Reilffordd y Cambrian? (WAQ54300)

**Y Dirprwy Weinidog:** Mae Network Rail wedi gwario £3.8 miliwn o'i Chronfa Berfformio i wella seilwaith Rheilffordd y Cambria rhwng Aberystwyth a'r Amwythig.

Mae Network Rail hefyd yn ariannu'r system signalau ERTMS sy'n cael ei threialu ar Linell y Cambria, ac hefyd yn darparu arian ar gyfer gwaith adnewyddu a gwaith cynnal a chadw arall. Mater i Network Rail yw hwn ac rwyf wedi gofyn iddynt gysylltu â chi i esbonio hyn yn fanylach.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint o gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddyrannu ar gyfer Rheilffordd y Cambrian? (WAQ54301)

**Y Dirprwy Weinidog:** Rwy'n darparu £8 miliwn o arian cyfalaf i wella seilwaith Rheilffordd y Cambria rhwng Aberystwyth a'r Amwythig, fel rhan o fuddsoddiad ar y cyd gyda Network Rail.
Rwyf hefyd yn darparu tua £1.7 miliwn yn flynyddol ar gyfer trenau pedwar cerbyd ar Brif Linell y Cambria.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar Reilffordd y Cambrian? (WAQ54302)

**Y Dirprwy Weinidog:** Hyd yma, mae £5 miliwn (o'r £8 miliwn) wedi'i wario ar wella seilwaith Rheilffyrdd y Cambria rhwng Aberystwyth a'r Amwythig.

Ers mis Rhagfyr 2006, mae tua £1.7 miliwn (ar brisiau cyfredol) wedi'i wario bob blwyddyn i atgyfnerthu'r gwasanaethau trenau pedwar cerbyd ar Brif Linell y Cambria.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch p’un ai a oes cynnydd wedi’i wneud gyda chyd-Weinidogion y DU a gyda Gweithrediaeth yr Alban ynghylch cydgordio’r cynlluniau consesiynau bws yng Nghymru, Lloegr a’r Alban ledled y Deyrnas Unedig? (WAQ54307)

**Y Dirprwy Weinidog:** Mae trafodaethau rhwng fy swyddogion a swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban yn mynd rhagddynt.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pryd y bydd y broses ail-dendro yn dechrau ar gyfer darpariaeth FSB4 yng Nghanolbarth Cymru? (WAQ54308)

**Y Dirprwy Weinidog:** Disgwylir i’r broses dendro ddechrau ddydd Llun 8fed Mehefin 2009, a dylid penodi contractwr newydd yn gynnar ym mis Awst fan bellaf.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Yn dilyn eich sylwadau i Ann Jones yn y Siambr ar 3 Mehefin 2009 yn ymwneud â’r Fenter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol, beth yw eich cynlluniau ar gyfer cyllido hyn yn awr ac yn y blynyddoedd ariannol dilynol? (WAQ54311)

**Y Dirprwy Weinidog:** Ni fydd y trefniadau cyllido ar gyfer y Fenter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol (CTCFI) yn newid ar gyfer 2009-10.

Felly, bydd y 15 o weithredwyr trafnidiaeth gymunedol sydd o fewn cwmpas y CTCFI yn gallu cynnig yr un lefel o wasanaeth â’r hyn a welwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Ar gyfer 2010/11 a 2011/12, rwyf wedi gofyn i’m swyddogion weithio’n agos gyda Chymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol Cymru i edrych ar ddichonoldeb model cyllido sy’n gynaliadwy ac yn cwmpasu’r sector trafnidiaeth gyhoeddus gyfan.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Yn ychwanegol at yr estyniad a roddwyd i Gyngor Sir y Fflint o ran y Safon Ansawdd Tai Cymru (a) beth yw’r sefyllfa bresennol, (b) beth sydd wedi cael ei gytuno neu sydd wrthi’n cael ei gytuno, ac (c) beth yw’r amserlenni dan sylw? (WAQ54317)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Ar yr 17eg Chwefror 2009, pleidleisiodd Cyngor Sir y Fflint yn unfrydol i drefnu pleidlais i’w denantiaid o ran trosglwyddo’r stoc tai i landlord cymdeithasol cofrestredig. Noda’r awdurdod fod y bleidlais yn debygol o gael ei chynnal ddiwedd flwyddyn nesaf (2010). Yn y cyfamser bydd fy swyddogion yn gweithio’n agos gyda phrif weithredwr yr awdurdod yn ystod y cyfnod hwn cyn y bleidlais, a chaiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 15ed Gorffennaf 2009.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog (a) restru’r amgueddfeydd a’r orielau a gefnogwyd yng Nghymru, yn ogystal â’r cymorth ariannol a ddyfarnwyd i bob un ohonynt, a (b) nifer yr ymwelwyr a ddenwyd i bob un dros y 12 mis diwethaf? (WAQ54303)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Dosbarthwyd tua £500,000 mewn grantiau i 50 o amgueddfeydd lleol gan Adran Dreftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008-09, a hyd yn hyn mae tua £540,000 o grantiau wedi’u dyrannu i 28 o amgueddfeydd lleol yn 2009-10. Darperir manylion llawn

yn Atodiad 1. Mae'r grantiau'n amodol ar brosesau gwneud cais, a chânt eu dosbarthu gan fy swyddogion yn CyMAL: is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru a Cadw.

Darparwyd £24.5 miliwn o gymorth grant i Amgueddfa Cymru—National Museum Wales gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008-09, a bydd yn darparu £25.1 miliwn yn 2009-10. Yn ogystal, bydd yn darparu £1 miliwn ar draws 2008-10 i ddatblygu Adain Uchaf y Gorllewin yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a £250k i'w fuddsoddi mewn mesurau arbed ynni. Roedd cyfanswm nifer yr ymwelwyr ar gyfer saith safle Amgueddfa Cymru - National Museum Wales dros 1.5 miliwn yn 2008.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn derbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae wedi buddsoddi tua £1,035,000 mewn grantiau i orielau yn 2008-09. Ceir manylion llawn yn Atodiad 2. Dylid nodi nad yw hyn yn cynnwys tua £2,642,000 o grantiau a ddarparwyd i ganolfannau celfyddydau amlswyddogaeth ag orielau yn 2008-09, am na ellir gwahanu arian sy'n benodol ar gyfer orielau.

Lle bo'r ffigurau ar gael, mae nifer yr ymwelwyr ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf wedi'i ychwanegu at y rhestrau gan ddefnyddio canlyniadau arolwg diweddaraf Ymweliadau ag Atyniadau Twristaidd 2008, a gafodd ei baratoi ar gyfer Croeso Cymru gan Beaufort Research.

*Atodiad 1*

**CyMAL: Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru**

| **Amgueddfa** | **2008-09 – grantiau a dalwyd** | **2009-10 – grantiau a ddyrannwyd** | **Ffigurau ymwelwyr 2008*** |
|---|---|---|---|
| Amgueddfa y Fenni | | £5,000.00 | 19,205 |
| Amgueddfa Gerflunio Andrew Logan | £1,427.00 | | |
| CBC Blaenau Gwent | | £22,026.00 | |
| Castell Bodelwyddan | £14,739.94 | £22,480.00 | 39,472 |
| Amgueddfa Sir Frycheiniog | £30,285.41 | £20,000.00 | 19,257 |
| Amgueddfa Brynmawr a'r Cylch | £2,194.68 | | |
| Gwasanaethau Amgueddfa a Threftadaeth Caerffili | £9,453.00 | | |
| CARAD | £1,212.00 | | |
| Castell Caerdydd | | £11,000.00 | 221,903 |
| Amgueddfa Sir Gaerfyrddin | £17,996.00 | | 14,030 |
| Amgueddfa Ceredigion | £9,754.00 | | 35,010 |
| Amgueddfa Cas-gwent | £27,500.00 | £27,500.00 | 18,829 |
| Gwasanaeth Amgueddfeydd Conwy | £22,031.46 | £7,996.00 | |
| Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa | £10,493.72 | £25,483.47 | 75,924 |
| Amgueddfa Cwm Cynon | £2,960.50 | | |
| Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych | £18,783.63 | £14,872.00 | |
| Ymddiriedolaeth Archifol Gwaith Glynebwy | £6,342.43 | | |
| Canolfan yr Aifft | £12,264.00 | | |
| Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir y Fflint | £930.00 | | |
| Oriel Gelf Glynn Vivian | £3,953.00 | £4,500.00 | |
| Amgueddfa Dyffryn Maes Glas | £2,567.00 | | |
| Amgueddfa Gwynedd | £18,609.92 | £40,000.00 | 12,489 |
| Amgueddfa Arforol Caergybi | £1,219.19 | | 9,000 |
| Amgueddfa | £8,796.10 | £5,400.00 | 10,367 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fictoraidd Llety'r Barnwr | | | |
| Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli | £13,365.50 | £5,275.24 | 3,391 |
| Amgueddfa Llandudno | £4,585.00 | £15,000.00 | |
| Elusendy Llanrwst | £18,575.17 | £25,270.00 | |
| Amgueddfa Lloyd George | £2,693.00 | £3,200.00 | 7,204 |
| Castell ac Amgueddfa Gatrodol Sir Fynwy | £1,231.16 | | 4,310 |
| Gwasanaethau Diwylliannol Sir Fynwy – Amgueddfeydd | £12,025.00 | | |
| Amgueddfa a Gwasanaeth Diwylliannol – Oriel Ynys Môn | £4,650.00 | | |
| Amgueddfa Cyflymder – Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin | | £1,119.50 | 37,749 |
| Amgueddfa Arberth | £15,400.00 | £25,000.00 | |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Castell Perhyn | £6,000.00 | | 187,271 |
| Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd | £2,820.00 | £10,000.00 | 59,077 |
| Amgueddfa'r Hen Gloch | £3,000.00 | £3,796.15 | 1,926 |
| Amgueddfa Parc Howard | £11,048.00 | | 13,045 |
| Amgueddfeydd Sir Benfro | £5,500.00 | | |
| Cymdeithas Amgueddfeydd Sir Benfro | £1,889.46 | | |
| Amgueddfa Pont-y-pŵl | £15,194.17 | £24,091.00 | |
| Amgueddfa Pontypridd | £4,191.30 | £3,000.00 | 26,708 |
| Amgueddfa Powysland | £15,789.75 | £11,925.00 | 8,804 |
| Gwasanaeth Amgueddfeydd Rhondda Cynon Taf | £7,001.93 | £11,830.55 | |
| Amgueddfa Rheilffordd Fach y Rhyl | £2,697.22 | | 9,192 |
| Amgueddfa y Rhyl | £24,051.86 | £27,000.00 | 28,753 |
| Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig | £15,636.44 | £16,000.00 | |
| Amgueddfa ac Oriel Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth | £8,558.51 | £30,000.00 | 6,500 |
| Amgueddfa Scolton Manor | £8,892.76 | £2,129.50 | |
| Amgueddfa Abertawe | £20,830.00 | | 175,604 |
| Amgueddfa Syr Henry Jones | £14,875.40 | £15,000.00 | |
| Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod | £15,273.76 | | |
| Tŷ Tredegar | £3,502.67 | | 20,050 |
| Amgueddfa Bywyd Gwledig Brynbuga | £954.14 | | 3,597 |
| Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam | £18,622.76 | £47,852.00 | 14,360 |

**Is-adran Cadw – grantiau gan Cadw ar gyfer atgyweirio/adfer adeiladau hanesyddol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oriel Mostyn | | £60,000.00 | |
| | **£502,367.94** | **£543,746.41** | |

*Mae'r ffigurau ymwelwyr yn seiliedig ar holiaduron a ddychwelwyd gan amgueddfeydd ac orielau fel rhan o'r gwaith ymchwil a gyflawnwyd gan Beaufort Research ar ran Croeso Cymru.

*Atodiad 2*

**Arian i orielau gan Gyngor Celfyddydau Cymru**

| **Oriel** | **2008-09 – grantiau a dalwyd** | **Ffigurau ymwelwyr 2008*** |
|---|---|---|
| Ffotogallery | £203,940.00 | |
| g39 | £ 79,445.00 | |
| Oriel Gelf Glynn Vivian | £126,735.00 | |
| Oriel y Genhadaeth | £ 24,445.00 | |
| Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd | £ 42,374.00 | 59,077 |
| Oriel Davies | £196,715.00 | |
| Oriel Mostyn | £ 58,369.00 | |
| Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin | £ 7,951.00 | |
| Oriel Wrecsam | £ 87,668.00 | |
| Canolfan Grefftau Rhuthun | £206,604.00 | |
| Trace – Installaction Artspace | £ 824.00 | |
| | **£1,035,070.00** | |

*Mae'r ffigurau ymwelwyr yn seiliedig ar holiaduron a ddychwelwyd gan amgueddfeydd ac orielau fel rhan o'r gwaith ymchwil a gyflawnwyd gan Beaufort Research ar ran Croeso Cymru.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Faint o bobl sydd wedi ymweld â'r Ardd Fotaneg Genedlaethol ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf? (WAQ54304)

**Alun Ffred Jones:** Yn ôl Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, mae nifer yr ymwelwyr fel a ganlyn:

| | 2004/5 | 2005/6 | 2006/7 | 2007/8 | 2008/9 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad wedi'i dalu | | | | | 78,159 |
| Mynediad heb dalu (aelodau, cynigion ac ati) | | | | | 36,494 |
| Cyfanswm yr Ymwelwyr wrth y Glwyd | 108,675 | 110,101 | 120,086 | 131,018 | 114,653 |
| Ymwelwyr Addysg | 17,306 | 13,040 | 14,606 | 17,836 | 20,304 |
| Ymwelwyr Corfforaethol | 7,229 | 11,172 | 13,422 | 11,488 | 12,138 |
| **Cyfanswm yr Ymwelwyr** | **133,210** | **134,313** | **148,114** | **160,342** | **147,095** |

Cyn y llynedd, nid oes data ar gael sy'n dangos y tueddiadau hanesyddol rhwng mynediad wedi'i dalu a mynediad am ddim.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r symiau a wariwyd ar sefydliadau neu brosiectau diwylliannol er 2000 gan ddynodi ym mhob achos ym mha awdurdod lleol neu awdurdodau lleol y mae pob sefydliad neu brosiect wedi'i leoli? (WAQ54312)

**Alun Ffred Jones:** Nid yw'n bosibl darparu rhestr o wariant ar brosiectau neu sefydliadau diwylliannol ers 2000 fesul awdurdod lleol o'm portffolio, am nad yw'r gwariant a nodir yn fy adran yn cael ei gasglu ar y sail hwnnw. Gwneir y rhan fwyaf o'r arian y mae fy adran yn ei wario ar ddiwylliant drwy Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.